

CANLLAW AR GYFER CRAFFU YN SIR BENFRO

Beth yw Craffu?

O ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, cyflwynwyd newidiadau i strwythurau gwleidyddol o fewn Cynghorau a newidiodd eu prosesau gwneud penderfyniadau. Yn sgil y newidiadau hyn, llwyddwyd i gyflwyno model Arweinydd a Chabinet (y Weithrediaeth), yn ogystal ag o leiaf un Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Rôl Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

O fewn y strwythur hwn, rôl Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw dwyn y Weithrediaeth i gyfrif, trwy adolygu, ymchwilio a herio penderfyniadau, gan gyfrannu at ddatblygu polisiau a monitro perfformiad. Nod craffu yw:

- Gwella perfformiad y Cyngor
- Sicrhau bod gwasanaethau sy'n cael eu cyflwyno gan y Cyngor yn darparu gwerth am arian
- Sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn ymateb i dderbyn anghenion lleol
- Ymgysylltu â'r cyhoedd a chymunedau am benderfyniadau sy'n effeithio arnynt

Ni all Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wneud penderfyniadau; gallant wneud argymhellion i'r Weithrediaeth neu'r Cyngor yn unig. Ni allant ychwaith fod yn gysylltiedig â phryderon neu gwynion gan unigolion nad ydynt yn effeithio ar y gymuned ehangach.

Sut mae Craffu yn gweithio?

Mae gan bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu flaenraglen waith sy'n darparu manylion am yr hyn y bydd y Pwyllgor yn craffu arno dros gyfnod o 12 mis. Mae rhaglenni gwaith yn cynnwys eitemau a fydd yn cael eu hystyried, neu wedi cael eu hystyried, gan y Cabinet (cyn ac ar ôl craffu ar benderfyniad), monitro perfformiad adrannol neu eitemau o ddiddordeb neu sy'n peri pryder i aelodau'r Pwyllgor neu i'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli.

Gall aelodau o'r cyhoedd gynnig awgrymiadau am eitemau i'w trafod gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu hefyd a darparu cyflwyniadau ysgrifenedig mewn perthynas â materion sy'n cael eu hystyried gan Bwyllgor. Am y rheswm hwn, mae blaenraglenni gwaith wedi eu cynllunio i fod yn hyblyg a gallent newid i ddarparu ar gyfer materion a allai godi yn ystod y flwyddyn ac sydd o fewn cylch gwaith Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Rôl Cadeiryddion, Is-Gadeiryddion ac aelodau Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion

Dylai Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu weithio gyda'i gilydd i gefnogi gwaith eu Pwyllgor, trwy:

- flaenoriaethu gwaith y Pwyllgor
- sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor yn cymryd rhan a'u bod yn cael cyfle i gyfrannu a chael dweud eu dweud
- gweithio'n agos gyda swyddogion i gytuno ar y busnes ar gyfer pob cyfarfod a gosod yr agendâu

Aelodau Pwyllgor

Mae'r rhestr ganlynol yn amlinellu'r hyn y dylai Aelod Craffu ei wneud a'r hyn na ddylai ei wneud i sicrhau bod y swyddogaeth graffu yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus a sicrhau bod nodau craffu'n cael eu bodloni:

- sicrhau eu bod yn deall eu rôl yn llawn, fel eu bod yn gallu cyfrannu at gyfarfodydd a bod yn rhan o'r broses 'ffrind beirniadol'
- peidio â defnyddio cyfarfodydd i fynd ar drywydd agendâu personol neu fynegi cwynion unigol
- paratoi ar gyfer cyfarfodydd trwy ddarllen papurau, gwneud nodiadau a ffurfio cwestiynau heriol
- peidio â chodi pynciau nad ydynt ar yr agenda
- holi cwestiynau cadarnhaol a heriol
- peidio â gwneud datganiadau yn hytrach na gofyn cwestiynau, neu geisio sgorio pwyntiau gwleidyddol
- cyfrannu at osod blaenraglenni gwaith a bod yn barod i gynorthwyo mewn unrhyw grwpiau Gorchwyl a Gorffen
- ceisio sicrhau eu bod yn mynychu pob cyfarfod.

Craffu yn Sir Benfro

Mae gan Sir Benfro bum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:

- Corfforaethol
- Gwasanaethau
- Polisi a Chyn Penderfynu
- Gofal Cymdeithasol
- Ysgolion a Dysgu

Mae gan bob Pwyllgor 13 aelod, gyda 4 aelod cyfetholedig statudol ychwanegol ar y Pwyllgor Ysgolion a Dysgu a 4 aelod cyfetholedig ar y Pwyllgor Partneriaethau yn ymwneud â materion Trosedd ac Anrhefn. Mae pob Pwyllgor yn wleidyddol gytbwys er mwyn adlewyrchu cyfansoddiad y Cyngor ac yn cynnal o leiaf bum cyfarfod y flwyddyn. Gellir cynnal cyfarfodydd ar y cyd o ddau Bwyllgor neu fwy pan fydd yn briodol. Gall y cyhoedd fynychu pob cyfarfod oni bai bod gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig yn cael ei thrafod.

Mae portffolio pob un o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fel a ganlyn; fodd bynnag, gallai mwy nag un pwyllgor drafod materion penodol neu themâu trawsbynciol;

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol

Rôl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol yw adolygu a chraffu ar swyddogaethau a gwasanaethau cymorth corfforaethol.

Bydd gan y Pwyllgor oruchwyliaeth dros gyfeiriad strategol cyffredinol, polisiâu, cynlluniau a blaenoriaethau'r Cabinet a'r Cyngor (ar ôl gwneud penderfyniadau) a bydd yn monitro eu gweithredu. Bydd y Pwyllgor hefyd yn craffu ar wasanaethau corfforaethol trwy ddefnyddio gwybodaeth reoli berthnasol fel Cynlluniau Gwella Gwasanaethau a Chofrestrau Risg

Busnes. Gellir cyfeirio unrhyw feysydd o gonsyrn penodol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau yn ôl yr angen. Yn ogystal, bydd gan y Pwyllgor oruchwyliaeth dros waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol trwy Banel Partneriaethau sefydlog.

Dyma gylch gwaith a chwmpas y Pwyllgor mewn perthynas â swyddogaethau a gwasanaethau corfforaethol:

Swyddogaethau Corfforaethol

- Swyddfa'r Arweinydd
- Adroddiadau blynyddol Aelodau Cabinet
- Prif Weithredwr
- Monitro cyllidebau (bob chwe mis)
- Monitro perfformiad corfforaethol (bob chwarter)
- Cynllun Gwella Corfforaethol a'i adolygu
- Cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Adroddiadau corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru
- Y Gymraeg
- Rheoli Risg
- Diogelu Corfforaethol
- Chwythu'r Chwiban
- Rheoli'r Rhaglen Drawsnewid
- Rheoli Rhaglen y Fargen Ddinesig

Gwasanaethau corfforaethol

- Gwasanaethau Ariannol
- Technoleg Gwybodaeth
- Gwasanaethau Archwilio, Risg a Gwybodaeth
- Gwasanaethau Cwsmeriaid
- Adnoddau Dynol
- Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgor
- Caffael
- Polisi Corfforaethol
- Cymorth Partneriaethau a Chraffu
- Cyfathrebu Corfforaethol, y Wasg, Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata
- Gwasanaethau Etholiadol

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau

Rôl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau yw adolygu a chraffu ar y gwasanaethau a gyflwynir i'r cyhoedd gan y Cyngor, ac eithrio'r gwasanaethau hynny sy'n ymwneud ag Ysgolion a Dysgu neu Ofal Cymdeithasol, y mae Pwyllgorau penodol yn gyfrifol amdanynt.

Bydd y Pwyllgor yn craffu ar ansawdd a pherfformiad gwasanaethau a gyflwynir gan y Cyngor i'r cyhoedd trwy ddefnyddio gwybodaeth reoli berthnasol, fel Cynlluniau Gwella Gwasanaethau, Cofrestrau Risg Busnes a mesurau perfformiad.

Mae cylch gwaith a chwmpas y Pwyllgor yn ymwneud â chraffu ar wasanaethau canlynol y Cyngor:

- Seilwaith
- Yr Amgylchedd ac Argyfyngau Sifil Posibl
- Tai
- Cynnal a Chadw Adeiladau
- Cynllunio
- Eiddo
- Diogelu'r Cyhoedd
- Datblygu Economaidd ac Adfywio
- Gwasanaethau Diwylliannol
- Gwasanaethau Hamdden
- Refeniwiau a Budd-daliadau

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Polisi a Chyn Penderfynu

Rôl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Polisi a Chyn Penderfynu yw adolygu a chraffu ar bolisiâu, cynlluniau a strategaethau cyn i'r Cabinet wneud penderfyniadau.

Bydd y Pwyllgor yn ymgymryd â chraffu cyn gwneud penderfyniad, er mwyn cyfrannu at ansawdd a chadernid dull y Cabinet o wneud penderfyniadau. Swyddogaeth bellach gan y Pwyllgor yw sicrhau bod dull y Cabinet o wneud penderfyniad yn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn ystyried yr egwyddor 'datblygu cynaliadwy' a'r 5 ffordd o weithio (tymor hir, ataliol, cynhwysol, cydweithredol ac integredig) yn ogystal â gofynion statudol eraill yn ôl yr angen (e.e. Deddf Cydraddoldeb 2010).

Dyma gylch gwaith a chwmpas y Pwyllgor:

- Blaenraglen waith y Cabinet
- Cynigion am newid, trawsnewid a/neu effeithlonrwydd gwasanaethau
- Asesiadau Effaith Integredig
- Strategaethau a chynlluniau (yn ôl yr angen)
- Datblygu a chynllunio ar gyfer cyllideb flynyddol a chynigion treth y Cyngor drwy'r Panel Cyllid

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol

Rôl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol yw adolygu a chraffu ar wasanaethau'n ymwneud ag anghenion gofal, cymorth a llesiant plant ac oedolion.

Bydd y Pwyllgor yn craffu ar ansawdd a pherfformiad yr holl wasanaethau sy'n gysylltiedig â Gofal Cymdeithasol sy'n cael eu cyflwyno gan y Cyngor, gan ddefnyddio gwybodaeth reoli berthnasol fel Cynlluniau Gwellu Gwasanaethau, Cofrestrau Risg Busnes a mesurau perfformiad, a byddant yn ystyried y meysydd canlynol;

- Gofal Oedolion
- Gwasanaethau Plant
- Comisiynu Strategol ar y Cyd
- Gofalwyr
- Gwasanaethau integredig a llesiant
- Gofal cartref

- Gwaith gyda'r trydydd sector
- Cydymffurfio â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
- Diogelu Rhanbarthol
- Maethu Rhanbarthol
- Mabwysiadu Rhanbarthol

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Ysgolion a Dysgu

Rôl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Ysgolion a Dysgu yw adolygu a chraffu ar wasanaethau sy'n cael eu cyflwyno i wella deilliannau i blant a phobl ifanc, gwasanaethau cymorth i ieuenctid a gwasanaethau eraill yn y gymuned gan gynnwys Addysg Oedolion. Bydd yn cefnogi codi safonau addysgol a deilliannau i ddysgwyr.

Dyma gylch gwaith a chwmpas y Pwyllgor:

- Deilliannau addysgol, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4
- Perfformiad ysgolion, gan gynnwys cymorth a roddir i ysgolion
- Categoriadau ysgolion
- Cymorth ysgolion drwy Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)
- Ysgolion Unigol (trwy'r Panel Craffu Ysgolion)
- Gwasanaethau Cynhwysiad
- Gwasanaethau Cymorth i Ieuenctid a gwasanaethau eraill yn y gymuned (gan gynnwys addysg oedolion)
- Dysgu, sgiliau a hyfforddi ar ôl 16 oed
- Memorandwm Dealltwriaeth gyda Choleg Sir Benfro
- Y Gwasanaeth Cerdd
- Datblygu Chwaraeon
- Llais a chyfranogiad plant
- Gwybodaeth ariannol yn ymwneud ag ysgolion a dysgu
- Diogelu mewn Addysg

Hyfforddi Aelodau Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Mae hyfforddiant sydd ar gael i aelodau Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cynnwys cymysgedd o becynnau generig a phenodol i'r Pwyllgor, yn ogystal ag ymweliadau safle strategol lle gall Cynghorwyr ddysgu mwy am faterion sy'n berthnasol i waith eu Pwyllgor. O ran hyfforddiant generig, mae enghreifftiau o seminarau/gweithdai a ddarparwyd yn cynnwys:

- Sgiliau Holi
- Sgiliau Cadeirio
- Hyfforddiant Cydraddoldeb
- Cod Ymddygiad
- Cynigion cyllideb y Cyngor Sir
- Diogelu

Trefnir hyfforddiant yn ôl yr angen, a gall Cynghorwyr ofyn am hyfforddiant pan fyddant yn teimlo bod angen iddynt gael dealltwriaeth well o bwnc penodol neu faes penodol o'u rhaglen waith.

Sut caiff Craffu ei fonitro?

Bob blwyddyn, mae Adroddiad Blynyddol yn cael ei lunio sy'n adolygu gwaith y Pwyllgorau dros y flwyddyn flaenorol. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y gwaith y mae'r Pwyllgorau wedi ei gyflawni, y gwahaniaeth y mae gwaith pob Pwyllgor wedi ei wneud, y canlyniadau allweddol, yr hyfforddiant a'r datblygiad yr ymgwymerodd aelodau'r Pwyllgor ag ef a heriau ar gyfer y Pwyllgorau yn y flwyddyn i ddod. Cyflwynir Adroddiadau Blynyddol Trosolwg a Chraffu i'r Cyngor a gellir eu gweld ar dudalennau Trosolwg a Chraffu gwefan y Cyngor.

Cymorth gan Swyddogion

Caiff Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu gefnogaeth swyddogion sy'n rhoi cyngor ac arweiniad i'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd ac aelodau o'r Pwyllgor ac i unrhyw weithgorau a sefydlwyd i gynnal ymchwiliadau manwl i feysydd penodol o'r rhaglen waith. Mae swyddogion hefyd yn cyd-drefnu'r gwaith o baratoi a chasglu adroddiadau i'w hystyried mewn cyfarfodydd Pwyllgor.

Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae craffu'n rhoi cyfleoedd i aelodau'r cyhoedd gymryd rhan yng ngwaith y Cyngor.

Os byddwch yn teimlo'n gryf am bwnc neu mae gennych faes penodol o arbenigedd, gallwch wneud cais am gael siarad mewn cyfarfod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mae protocol ar gael ar ein tudalen Craffu ar y we sy'n esbonio sut mae'r broses hon yn gweithio.

Fel arall, gall aelodau'r cyhoedd gyflwyno safbwynt ysgrifenedig am fater sy'n cael ei ystyried gan Bwyllgor ac sydd eisoes ar raglen waith y Pwyllgor, neu gall awgrymu pwnc i Craffu arno. Mae ffurflenni ar gael ar dudalennau Craffu ar y we, ynghyd â rhaglenni gwaith pob Pwyllgor, sy'n rhestru'r meysydd y bydd y pwyllgor yn Craffu arnynt dros y misoedd i ddod.